# CADEIRYDD PARTNERIAETH SGILIAU TWRISTIAETH A LLETYGARWCH CYMRU

Mae swydd wag yn bodoli ar gyfer Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau Twristiaeth a Lletygarwch Cymru, a sefydlwyd i nodi materion sy'n ymwneud â hyfforddi, datblygu a chadw staff yn y sectorau Twristiaeth a Lletygarwch yng Nghymru ac i hyrwyddo atebion i'r asiantaethau perthnasol.

Mae Twristiaeth a Lletygarwch yn sector allweddol yn economi Cymru sy'n gyfrifol am 6 y cant o GYC y wlad ac mae'n cyflogi tua 140,000 o bobl. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau bod nifer yr ymwelwyr yn parhau i dyfu ac yn cydnabod bod cynnig cyflogaeth cymhellol a deniadol yn ganolog i'r nod hwn.

Bydd y Cadeirydd yn cynrychioli buddiannau'r sector ar Fwrdd Sgiliau Twristiaeth a Lletygarwch y DU sydd wedi'i sefydlu fel rhan o Fargen Sector Twristiaeth y DU.

Mae Partneriaeth Sgiliau Twristiaeth a Lletygarwch Cymru yn dwyn ynghyd arweinwyr y diwydiant a chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector Addysg a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. Mae'n ceisio sbarduno a llunio strategaeth gynhwysfawr ar gyfer safonau prentisiaethau, dysgu a chymwysterau a fydd yn cael ei datblygu er mwyn galluogi'r sector i gynnig gyrfaoedd gwerth chweil a deniadol i ddarpar staff o bob oedran a chefndir yn y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Bartneriaeth a arweinir gan y Diwydiant yn cyfarfod bob chwarter ar hyn o bryd ac mae tua 12-15 o bobl yn mynychu pob cyfarfod. Mae Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, yn rhan o'r Bartneriaeth ac yn gyfrifol am yr Ysgrifenyddiaeth.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn gallu cynnig profiad o arwain mewn amgylchedd lle rydych yn ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid ac yn deall pwysigrwydd allweddol datblygu a chadw staff. Byddai profiad o'r gwasanaeth Addysg a Gyrfaoedd yn ddymunol iawn, ynghyd â dealltwriaeth o waith partneriaeth effeithiol yng Nghymru. Dyma benodiad strategol pwysig i'r sector a bydd gan y Cadeirydd gyfle clir i helpu'r sector Twristiaeth a Lletygarwch yng Nghymru i dyfu a datblygu ei sylfaen sgiliau dros y blynyddoedd nesaf.

Ni fydd y Cadeirydd yn derbyn cyflog ond caiff treuliau teithio rhesymol ar gyfer cyflawni’r dyletswyddau uchod eu had-dalu. Bydd y penodiad am gyfnod o dair blynedd ac mae modd estyn cyfnod y Cadeirydd yn y swydd.

Dylai ymgeiswyr sydd â diddordeb ysgrifennu at David Chapman, Cyfarwyddwr Gweithredol HospitalityCymru gan amgáu eu CV:

dchapman@ukhospitality.org.uk

erbyn 5pm dydd Llun, 7 Chwefror , 2022 fan bellaf.

Rhagwelir y cynhelir cyfweliadau ddydd Llun, Mawrth 7 2022.